



Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

29 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr ar 20 Rhagfyr ar Baden-Württemberg (B-W).

Mae perthynas Rhagfyr â Baden-Württemberg yn un hirsefydlog; mae'r Datganiad yr ydych yn gyfeirio ato yn diweddarau ein cydweithrediad ar ffurf Llywodraeth i lywodraeth ac yn canolbwyntio ar weithgarwch yn y dyfodol.

Yn yr ymateb i Argymhelliad 11, dywedwyd bod *"pob perthynas ryngwladol yn wahanol ac wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Felly, efallai nad oes ffordd unffurf o wneud hyn. Bydd Llywodraeth Rhagfyr yn ystyried canfyddiadau Adroddiad y Pwyllgor wrth ddatblygu, neu fabwysiadu, Cyd-Ddatganiadau ar gyfer datblygu cysylltiadau rhyngwladol eraill sydd â blaenoriaeth.*

Nid yw ein cytundeb gyda llywodraeth B-W yn dilyn cynllun gweithredu manwl neu ffurfiol. Yn hytrach, rydym wedi cytuno i ddefnyddio ein Datganiad fel llwyfan i ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi ar draws chwe maes blaenoriaeth:

- I. Ymgysylltiad Dwyochrog
- II. Masnach ac Entrepreneuriaeth
- III. Gwyddoniaeth ac Ymchwil
- IV. Addysg ac Ieuencid
- V. Diwylliant a Chymunedau
- VI. Yr Amgylchedd a Diogelu'r Hinsawdd

Yn ymarferol, mae pob perthynas â'n partneriaid yn unigryw. Rydym yn cydweithio i greu math o gydweithrediad sy'n gweddu orau i anghenion partneriaid a gwahanol ffyrdd o weithio; mae rhai yn fyr ac yn strategol tra bod eraill yn hirach ac yn fanwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn B-W i ddatblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer 2024-25 i sicrhau bod y Datganiad yn cael ei gyflawni. Unwaith y byddwn wedi cytuno ar y rhaglen hon, byddaf yn hapus i rannu trosolwg o'r prif ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Fel y nodwyd mewn llythyr blaenorol at y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2022, nid ydym yn cyhoeddi manylion llawn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond, ar gais y Pwyllgor, rydym wedi sefydlu tudalen ar y we sy'n crynhoi pob cytundeb yn lle hynny.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb yma o gymorth – rwy'n anfon copi at Vaughan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD